

Ymweliad y Parch. Evan Morgan, Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC, â Taiwan



Evan gyda Carys Humphreys yn y Gymanfa Gyffredinol yn Taipei



Cynrychiolwyr eciwmenaidd tu allan i gapel Tamsui, lle mae Carys yn addoli



Evan gyda Llywydd Eglwys Bresbyteriaidd Taiwan, y Parch. Pang Jyh-Hong (彭志鴻)

Ers pan oeddwn yn fachgen doedd Taiwan ddim yn ddieithr i mi, oherwydd dwi'n cofio fy rhieni'n mynd i wasanaeth comisiynu'r Parch. John a Dr Nerys Tudor yn Charing Cross. Rwyf wedi bod yn ymwybodol iawn hefyd drwy gydol fy ngweinidogaeth am wasanaeth Carys Humphreys i'r Eglwys Bresbyteriaidd yn Taiwan am 37 o flynyddoedd.

Felly, pan estynnwyd gwahoddiad gan Eglwys Bresbyteriaidd Taiwan imi fynychu'r Gymanfa Gyffredinol yn Taipei, roedd yn fraint enfawr i mi fynd yno ar ran Eglwys Bresbyteriaidd Cymru.

Cafwyd wythnos i'w chofio, wnaeth gyfoethogi fy mywyd a chryfhau'r berthynas rhyngddom fel gwledydd. Derbyniais fendithion di-ri a chefais daith hynod o addysgiadol. Dysgais am gyfraniad yr Eglwys Bresbyteriaidd yno i fywyd yr ynys ac am ei chyfraniad enfawr dros ryddid a democratiaeth. Mae'r bygythiad o du Tsieina yn real ac yn enfawr, fel cwmwl dros drigolion Taiwan o ddydd i ddydd. Hyd yma, brwydr ddigidol a brwydr bro pangda yw hi, ond mae gofid enfawr y bydd yna ymgais i oresgyn yr ynys.

Braf dros ben oedd cael cwmni Carys am yr wythnos ac elwa o'i gwybodaeth helaeth a'i hiwmor hyfryd. Mae hi'n anfon ei chofion atoch chi i gyd yn ei mamwlad ac yn ei mam eglwys. Gwerthfawrogwn ei gwaith diwyd a chydwybodol yn rhoi oes o wasanaeth i Eglwys Iesu Grist.

Ynys tua chan milltir oddi ar arfordir Tsieina yw Taiwan. Erbyn hyn mae ganddi ei harlywydd ei hun ac mae'n wlad hollol ddemocrataidd. O ganlyniad, mae'r hyn sydd wedi digwydd yn Hong Kong yn creu rhagor o bryder.

Eglwys Bresbyteriaidd Taiwan yw'r enwad Cristnogol mwyaf ar yr ynys. Er mai lleiafrif bychan iawn o'r trigolion sy'n Gristnogion, mae'r eglwys yn weithgar ac yn rhagweithiol iawn. Yn ogystal â dros fil o eglwysi, mae'r Eglwys Bresbyteriaidd yn gyfrifol am ysbysu, ysgolion a cholegau. Mae'r gwaith o efengylu'n 'holistig', chwedl yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Tan Sin-Liong, pan oeddem mewn cyfarfod preifat cyn dychwelyd adre. Hynny yw, mae gofalu am y person yn ei gyfarwydd yn hollbwysig i'r eglwys.

Braint hefyd oedd ymweld â chapel Carys yn Tamsui, un o'r achosion hynaf yn Taiwan. Cawsom groeso arbennig gan y Gweinidog a'r swyddogion.

Roedd 700 o gynrychiolwyr yn y Gymanfa ei hun. Mae'r bobl frodorol yn rhan bwysig o'r Eglwys, gyda 90% ohonynt yn Gristnogion. O ganlyniad ceir nifer o ieithoedd o fewn yr Eglwys ac ar yr ynys.

Braf oedd gweld cymaint o weinidogion ifanc, yn ferched ac yn ddyddion (Roedd Eglwys Bresbyteriaidd Taiwan yn ordeinio merched i'r weinidogaeth yn y 1940au, gyda llaw!), ac roedd pwyslais enfawr ar yr ifanc ac ymestyn allan atynt. Y thema oedd 'Inherit the Kingdom of God, Mould the New Order'. Yn ei anerchiad i'r Gymanfa, cawsom ein hatgoffa gan yr Is-arlywydd Lai Ching-Te gymaint roedd yr Eglwys wedi bod yn rhan o'r ymgyrch dros ryddid, democratiaeth a hawliau dynol. Mae nifer wedi colli eu bywydau ac wedi cael eu carcharu oherwydd hynny.

Braint hefyd oedd cyfarfod nifer o gynrychiolwyr eraill o eglwysi diwygiedig Korea, Malaysia, Singapore, Canada, yr Unol Daleithiau, Myanmar a'r India. Roedd croeso a gofal yr Eglwys Bresbyteriaidd

yno yn anhygoel. Roedd pob rhan o'r dydd wedi'i drefnu'n ofalus, yn fendith ac yn agoriad llygaid. Pan fyddem yn swpera gyda swyddogion y Gymanfa, caem geisiadau cyson ganddynt i adrodd stori Taiwan wedi inni ddychwelyd adref ac am i'r Eglwys eu cofio yn ein gweddïau yn gyson.

Cawsom ymweld ag eglwysi, coleg ac ysgol, clywed yr hanes, dod i ddeall am y sefyllfa nawr, a gwranddo am eu gwaith a'r cynllunio sydd i'r dyfodol. Buom yn ymweld â hen garchar sydd bellach yn amgueddfa hawliau dynol. Roedd y lle yma yn ei anterth yng nghyfnod y White Terror o dan yr unben Chiang Kai-shek. Roedd cyn-garcharor gwleidyddol eisiau sôn am ei brofiad o fynd o'r kangaroo court i'r carchar, ac roedd gwranddo arno'n brofiad mor emosiynol.

Ar ddechrau'r wythnos, cyn y Gymanfa, buom yn addoli ar fore Sul gyda chynulleidfya fyddar oedd yn defnyddio iaith arwyddo Taiwan. Roedd gwraig y gweinidog, Angel, yn cyfieithu i iaith Taiwan a Carys yn cyfieithu o'r iaith honno i'r Gymraeg! Cawsom amser bythgofiadwy gyda Peter, y Gweinidog, oedd yn dipyn o gymeriad, a'r gynulleidfya. Braf oedd cyfarfod y Cyn-ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Chang Te-Chien (Andrew), fu yng Nghymru beth amser yn ôl. Roedd ganddo fwy o frawddegau Cymraeg, bron, na rhai Saesneg! Gŵr arbennig iawn.

Ar ôl y Gymanfa, braf oedd ymweld â'r swyddfa ganolog a chwedd â nifer oedd yn gweithio mewn gwahanol adrannau. Mynd wedyn gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'i ddiprwy i gyfarfod a gwranddo, a thrafod problemau a gweledigaeth yr Eglwys.

Er bod Taiwan yn bell, 16 awr o hediad adre, mi fydd yr ynys, yr Eglwys Bresbyteriaidd a'r bobl yn agos iawn at fy nghalon ac yn fy ngweddïau am byth.

Cyfarfod Blynyddol Senana Cymru

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol dwyieithog Senana Cymru eleni yng Nghaersalem, Caernarfon, capel y darpar Lywydd, Mrs Menna Machreth Llwyd. Cymerwyd thema blwyddyn Menna fel llywydd o Eseia 52:7: "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed y negesydd sy'n cyhoeddi newyddion da." Adleisiwyd y thema gan siaradwr oedfa'r hwyr, sef Mrs Annet Ttendo Miller, Cydlynnydd Cyfiawnder Rhywedd y BMS World Mission.

Yn oedfa'r prynhawn, cymerwyd at y rhannau agoriadol gan aelodau Caersalem cyn i Mrs Bonni Davies, y Llywydd ar y pryd, sefydlu Menna yn ei swydd newydd. Cyflwynwyd y ddwy is-lywydd, y Parch. Misha Pedersen a Mrs Elsa Harflett, a daeth cyfarchion oddi wrth chwiorydd Cymanfa Arfon a Mudiad y Chwiorydd. Siaradodd Mrs Lowri Jones, aelod o Gyngor Cyfeiriol BMS, am waith y BMS yn dwyn Iesu a'r bywyd sydd ar gael ynddo Ef i'r byd. Maent yn ailddyfeisio rhai ffyrdd o weithredu mewn amseroedd newydd er mwyn ymuno'n broffwydol gyda Duw lle mae eisoes ar waith yn ein byd. Wedyn, cafodd pawb eu gwahodd i Gynhadledd y Senana yn Llambod ym mis Medi pan fydd y Parch. Siân Elin Thomas yn arwain yr astudiaeth Feiblaidd.

Yn ei haraith, cyfeiriodd Menna at thema ei llywyddiaeth. Ers sawl blwyddyn, mae wedi ei hysbrydoli gan gyfiawnder, sef cyfiawnder Duw yng nghyd-destun yr adnodau o Eseia. Prif bwyntiau ei hanerchiad oedd Newyddion Da, Tangnefedd a 'Dy Dduw sy'n teyrnasu'.

Newyddion Da: Mae sylweddoli mai Duw sy'n Frenin yn newid popeth ac ni ddylai gael ei gadw i ni ein hunain. Un genhadaeth sydd, boed dramor neu gartref. Roedd cael hyd i Iesu fel Gwardwr personol wedi newid cwrs bywyd Menna a gwneud iddi gyhoeddi bod Duw yn gwneud pethau newydd yng Nghymru, trwy drawsnewid bywydau ac eglwysi. Dyfynnodd eiriau Rene Padilla fod proclamaswn yn



Bonni Davies a Menna Machreth yng nghwmni'r is-lywyddion newydd, y Parch. Misha Pedersen ac Elsa Harflett

mynd law yn llaw gyda gweithredoedd cymdeithasol, gan fod gan y naill effaith ar y llall. Hefyd cyfeiriodd at ddatganiad Tom Wright fod gennym newyddion da i'w cyhoeddi gan ddod â Gair a goleuni Duw i'n cymunedau.

Tangnefedd: Iesu yw'r unig un all roi tangnefedd i unigolion ac i'r byd. Mae'n cynnig heddwch drwy ein cymodi â Duw ac â'n gilydd. Drwyddo Ef gallwn newid stori hilyddiaeth, erledigaeth, trais a newid hinsawdd. Mae popeth yn eiddo iddo Ef ac mae pob hunaniaeth yn bwysig i Grist. Cawn ein hachub yn ein holl amrywiaeth godidog ac mae'n bwysig codi ein llais dros gyfiawnder i bawb.

'Dy Dduw sy'n teyrnasu': Mae hyn yn newyddion da yma ac ar draws y byd. Disgwyliwch weld Duw yn gwneud pethau newydd yma yng Nghymru wrth inni ddod ato mewn edifeirwch, yn gofidio ac am wybod ei air yn well. Heriodd Menna ni i gyd gyda'r ffaith fod y rhan fwyaf o adnoddau Cristnogol yn y Gorllewin er bod ein niferoedd yn lleihau. A ydym yn fodlon rhannu ein grym a'n hadnoddau gyda'r nifer cynyddol o Gristnogion yng ngweddill y byd, gan dderbyn gweithwyr cenhadol atom ni? Mae'r sialens i genhadaeth yn fawr ond mae Duw yn teyrnasu ac yn gwneud rhywbeth newydd.

Yn olaf, gofynnodd Menna: sut allwn ni fod yn bobl newyddion da? Mae'n bosibl drwy waith Iesu Grist.



Menna Machreth yn arwyddo Beibl y Llywyddion yng nghwmni Siân Arwel Davies a Bonni Davies

Yn oedfa'r hwyr siaradodd Annet am ei gwaith yn edrych gyda'r BMS ar faterion rhywedd mewn diwyllianau a chyd-destunau gwahanol. Mae'n amhosibl bod yn rhan o genhadaeth Duw heb weld effaith beunyddiol anghyfiawnder rhywedd. Bob dydd ym mhob wlad mae merched yn wynebu anghyfiawnder, gan gynnwys anghyfartaledd, gwrthod cyfleoedd a diffyg dylanwad. Yn ystod eu bywydau bydd un o bob tair merch yn dioddef trais, ac mae un o bob pum gwlad â chyfreithiau sy'n gwahaniaethu yn erbyn merched. Dyfynnodd Annet o lyfr y Diharebion 31:8, a dweud bod yn rhaid i eglwysi edrych ar sut yr oedd Iesu yn trin merched – a ydym yn gweld hynny fel arfer?

Yn Bangladesh mae llwybr yn agor i ordeinio gwragedd ac yn Mozambique mae cyfreithwyr Cristnogol yn gweithio gyda gweinidogion ac arweinwyr traddodiadol, lle nad yw cyfreithiau cadarnhaol wedi'u gweithredu. Yn Uganda hefyd mae cyfreithwyr Cristnogol yn sefyll i fyny dros y rhai heb leisiau, gan gynnwys hen ŵr yn ymladd yn erbyn adfeddiannu ei dir. Mae Annet yn seilio'i gwaith ar y syniad fod gan bawb yr un gwerth yng ngolwg Duw, a galwodd arnom i fod yn arwyr rhywedd yn ein cymunedau ein hunain.

Ar derfyn y gwasanaeth cawsom rai sylwadau gan y Parch. Deb Stammers yn ein hatgoffa y dylai addoliad ein newid ni a newid ein ffordd o fyw: mae addoliad heb gyfiawnder yn ddiwerth yn llygaid Duw. Nid yw Duw eisieu Cristnogion dydd Sul yn unig – yn cyfateb i'r rhai y llafarwyd wrthynt yn Eseia 58 – ond Cristnogion sy'n deall mai gwir addoliad yw bod yno gyda Duw lle bynnag y mae ar waith yn y byd.

Suzanne Roberts
Eleri Jones



Y swyddogion a'r cyn-lywyddion oedd yn bresennol yng Nghaersalem

Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru

Gweddïau ar gyfer Sul y Cyfamod, 11 Mehefin 2023



Mae Sul, 11 Mehefin, wedi ei nodi fel Sul y Cyfamod.

Gadewch inni atgoffa'n hunain eto o alwad Crist am 'iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti' (Ioan 17, adn. 21). Nid yw rhannu'n bywydau a'n gwaith â'n gilydd fel eglwysi yn hawdd nac yn amlwg bob amser, ond gadewch i ni barhau i gydnabod ein galwad i'r weinidogaeth a'r undod a rannwn â'n gilydd.

Dyma weddïau i'w rhannu ar y Sul ...

Gweddi o fawl ac addoliad

Yr ydym yma yn y lle hwn, i'th foli a'th addoli,
I gynnig ein cariad, ein gobaith a'n llawenydd,
I osod gerbron ein Brenin a'n Crist
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Canwn gân newydd, a bydded i'n bywydau fod yn alaw,
Codwn lef, er mwyn peidio â theimlo cywilydd mwyach,
Rydym yn cynnig ein geiriau, ein gweithredoedd a'n hanfod,
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Fel y gwnaeth Abram a Sarai gynt
Bydded i ni adeiladu ein bwrdd a chynnig ein bara,
Fel Mathew a Paul, gadewch i ni godi a dilyn,
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Caneuon y cyfamod, a ysgrifennwyd yn yr Ysgrifurau,
A wireddir yn y lle hwn, mewn gobaith ac mewn llawenydd,
Cerddwn o'r lle hwn gyda'n Brenin a'n Crist,
Y cyfan yr ydym, a'r cyfan a'n tywysodd yma.

Cyffes:

Am y pethau hynny rydyn ni wedi'u gwneud, na ddylem ni fod wedi eu gwneud,
A'r hyn na wnaethom, ond y dylem ni fod wedi eu gwneud,
Yr hyn oll yr ydym yn ymdrechu â nhw, er nad oes bai arnom am hynny
Cyffeswn i ti,

Cyffeswn yn y Ffydd y gall pethau newid,
Cyffeswn yn y Gobaith y gallwn gael ein newid,
Cyffeswn mewn Cariad tuag at y Duw sy'n gwireddu gwyर्थiau o'n mewn.

Gofynnwn am dy faddeuant, gofynnwn am dy gymorth, gofynnwn am dy iachâd.

Yn enw Iesu, Amen.

Y Colect:

Dduw sy'n cadw ei addewidion, sy'n gwireddu yr hyn y mae'n ei addo,
Cerdda gyda ni wrth i ni barhau â'n taith a dod o hyd i ffyrdd newydd
o fod yn hen eglwys.
Estyn dy law tuag atom, a'n harwain i ddod o hyd i'n lle yn dy deyrnas. Amen.

Ymbiliau a Gweddïau o Ddiolchgarwch:

Ar Sul y Cyfamod hwn, cofiwn am yr addewidion a wnaed gan bump enwad Cristnogol yng Nghymru i gydgerdded gyda'i gilydd, ochr yn ochr, er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd o gydgerdded fel cyfeillion ac o fod yn eglwys. Rhown ddiolch am weledigaeth y rhai hirben a fu'n teithio o'n blaenau, yn ogystal â'r rhai sy'n parhau ar hyd y daith hon heddiw.

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Diolchwn am esiampl Abram a Sarai, Mathew a Paul, a ddilynodd y llwybrau yr oeddet ti wedi eu harwain atynt, heb wybod i ble yr oeddet yn eu harwain, na'r heriau a fyddai'n eu hwynebu ar hyd y daith. Rhown ddiolch i ti am ddilynwy'r Iesu heddiw, y mae eu hesiampl yn ein herio ni i fod yn well pobl Dduw.

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Gweddiwn dros y byd o'n cwmpas – y rhai sy'n eistedd mewn swyddfeydd, gweinyddwyr a chlercod, sy'n ceisio dy ddilyn. Gweddiwn dros yr anhrefn a achosir gan newid hinsawdd, dros y gwledydd hynny sy'n wynebu dinistr a rhyfel, a'r rhai sy'n wynebu newyn a thrallod. Cynorthwya ni i fod yn ateb i weddi rhywun arall.

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Gweddiwn dros y rhai agosaf atom, y rhai yr ydym yn eu caru a'r rhai nad ydym mor hoff ohonynt, am bob un sydd angen ein gweddïau ni a'th iachawdwriaeth di.

[*ychwanegwch weddïau addas i'ch cyd-destun lleol yma*]

Deled dy Deyrnas

Gwneler dy ewyllys

Gweddiwn dros y rhai a fu farw. Cynorthwya ni i fyw ein bywydau mewn ffordd sy'n goffadwriaeth deilwng iddynt hwy.

Dduw trugarog, rhoi dy ras i ni, cryfha ein calonau a'n heneidiau i fedru wynebu pa beth bynnag a ddaw ar hyd y daith.

Amen.

Fandaliaeth Capel y Drindod

Gyda thristwch y clywsom y newyddion am fandaliaid yn torri i mewn i Gapel y Drindod ym Mhwlheli yn ddiweddar. Achoswyd cryn ddfrod i du fewn y capel, gan gynnwys y bwrdd cymun, yr organ a rhai o'r creiriau hanesyddol. Roedd hyn yn fandaliaeth hollol di-alw-amdano, ac anfonwn ein cofion at weinidog yr eglwys, y Parch. W. Bryn Williams, a'r praidd o dan ei ofal.

Mewn cyfweiliad gyda'r BBC, dywedodd Bryn nad yw hyn wedi effeithio ar eu gallu i addoli a gweithredu fel eglwys, gan mai yn y festri maent yn cyfarfod ar hyn o bryd, ond bod y profiad wedi tristáu a dychryn llawer o'r aelodau, ac yn arbennig y rhai hyn.

Gobeithiwn y llwyddir i ddal y rhai a fu'n gyfrifol, ac y caiff addoldai'r dref lonydd. Rai blynyddoedd yn ôl daeth yr union brofiad i aelodau capel y Tabernacl yn y dref, sef addoldy'r Bedyddwyr, lle dinistriwyd y tu fewn yn llwyr gan fandaliaid. Mae hyn eto'n ein hatgoffa o'r math o fyd rydym yn byw ynddo, a'r angen am efengyl sy'n trawsnewid bywydau ac yn rhoi pwrpas i bobl mewn bywyd. Gweddiwn dros aelodau'r eglwys a dros y dref yn y cyfnod heriol yma.

Pregeth gan gyfrifiadur?

Roedd sgwrs Stephen Nantlais Williams ar ddeallusrwydd artifisial ar raglen *Bwrw Golwg* ganol Ebrill yn ddigon i godi ofn ar rywun. Mae Stephen yn gyd-olygydd y gyfrol *The robot will see you now*, sy'n trafod y dechnoleg ddiweddaraf.

Dechreuodd y sgwrs yn ddigon diniwed wrth sôn yn chwareus y gallai deallusrwydd artifisial greu pregeth fymryn yn well nag ambell bregethwr. Mae'r rhaglen ChatGPT, er enghraifft, yn gallu ysgrifennu traethodau a phregethau yn daclus ac yn amlhaenog – cymaint felly fel bod darlithwyr colegau yn ei chael hi'n anodd dirnad ai myfyriwr neu beiriant sydd wedi cyflawni'r gwaith. Pryder pennaf Stephen yn ei bennod yn y gyfrol yw fod y cyfan yn cael ei lywio gan y syniad mai peth mecanyddol yw'r ymennydd a'r ymwybyddiaeth ddynol. Felly, credir y gellir creu peiriant – sef cyfrifiadur neu ddeallusrwydd artifisial sydd yn gallu meddwl a gweithredu fel pobl, a hyd yn oed yn well na phobl. Ond y mae dehongliad felly yn anwybyddu'r cyswllt rhwng y corff a'r ymennydd; mae person yn berson cyflawn, nid yn fecanwaith cemegol yn unig. Mae pobl hefyd wedi eu creu ar lun a delw Duw, ac wedi eu creu i fod mewn perthynas â'u Crëwr. Felly, ni all deallusrwydd artifisial

gyrraedd y fan honno, waeth pa mor alluog y gallai fod.

Wrth i'r sgwrs ddatblygu roedd elfennau llawer iawn mwy dychrynlyd yng nghylch deallusrwydd artifisial dan y chwyddwydr. Mae 'na gwestiynau amlwg yn codi ynghylch pwy sydd yn rheoli'r datblygiadau hyn. Ar hyn o bryd, buddsoddiad sydd yn llywodraethu'r datblygiad; golwg cwmnïau ar elw yw un o'r prif ffactorau. Y mae llywodraethau yn araf iawn i weld yr angen am gytundeb rhyngwladol i reoli datblygiadau allai fynd allan o reolaeth.

Mae dwy ffactor oedd yn codi ofn. Yn gyntaf, mae llawer iawn o'r datblygiadau yn cael eu hariannu gan gwmnïau arfau. Mae'n rhan o'r ymdrech i gael arfau a milwyr nad yw cydwybod yn eu llesteirio. Yn ail, y mae gwyddonwyr yn sôn bellach am *super intelligence*. Cyfrifiaduron yw'r rhain sydd yn rhesymegu ac yn gweithio tu hwnt i ddeallusrwydd ddynol. Gallai'r cyfrifiaduron hyn greu peiriannau na all y meddwl dynol eu deall na'u hamgyffred, a gwneud hynny heb y cyfyngiadau na'r gofal y byddai cymdeithas am eu gweld. Mae'r ddwy elfen yna'n ddigon i yrru ias oer ar hyd gwegil rhywun, ac efallai'n alwad arnom i bwysu ar lywodraethau



i sicrhau fod mwy o bwyll a gwell rheolaeth.

John Roberts

The Robot Will See You Now: Artificial Intelligence and the Christian Faith, eds. John Wyatt, Stephen N. Williams (SPCK Publishing, ISBN: 978-0281084357; £7.99)

(Cyhoeddwyd yr erthygl wreiddiol yn *Perthyn: Cylchgrawn Capel y Morfa ac Ebeneser Penparcau*, Mai 2023)

Cyfarfod Ordeinio a Sefydlu Tomos Roberts-Young

Cynhaliwyd cyfarfod ordeinio a sefydlu Tomos Roberts-Young ddydd Sadwrn, 1 Hydref 2022, yng nghapel y Bedyddwyr, Noddfa Newydd, Tonna, ger Castell-nedd.

Bu Tomos yn gweinigogaethu yn Noddfa Newydd ers Hydref 2021. Bu'n fugail o dan hyfforddiant ers 2016 gydag Undeb Bedyddwyr Cymru mewn gwahanol gapeli, gan gynnwys Gomer (Abertawe), Calfaria (Sgiwen) a'r Tabernacl (Llwynhendy).

Llywydd y cyfarfod oedd y Parchg R. D. Bawden, y cyn-weinidog. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Parchg John Treharne a'r Parchg Andrew Lenny, sef cyn-weinidog Seion, Aberystwyth, lle mynychai Tomos yr oedfaon a'r ysgol Sul. Y Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, oedd yng ngofal yr ordeinio a'r Parchg Marc Owen oedd yn gweddio'r Urdd Weddi pan arddodwyd dwylo ar Tomos. Traddodwyd y bregeth gan y Parchg Ddr Craig Gardiner o Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Roedd aelodau o'r teulu a nifer fawr o gyfeillion yn bresennol. Er siom iddo, ac yntau wedi bod yn weinidog am 12 mlynedd yng Nghymanfa Gorllewin Morgannwg, ni allai'r Parchg Denis Young



(tad-cu Tomos) fod yn bresennol, ond darllenwyd ei gyfarchion i Tomos, aelodau'r capel a'r gynulleidfa gyfan ar ddechrau'r gwasanaeth.

Mae Tomos yn byw yn Aberafan gyda'i wraig, Liz, a'u mab, Karl Denis, a gafodd ei eni cyn y Nadolig y llynedd.

Terfysg Caerdydd a Jerwsalem

Terfysg Caerdydd

Wrth i mi ysgrifennu y tro hwn, mae pawb wedi cael eu synnu a'u harswydo o weld lluniau terfysg yn ardal Trelái, Caerdydd, nos Lun, 22 Mai. Roedd y lluniau'n dangos pobl mewn mygydau yn moelyd ceir a'u gosod ar dân, ac yn taflu cerrig o bob math at yr heddlu. Roedd trigolion yr ardal mewn ofn gwirioneddol am eu diogelwch.

Mae'n debyg taw sbardun y cyfan oedd damwain angheuol i ddau lanc ifanc ar gefn beic trydan neu feic modur bach. Honnid bod fan heddlu yn dilyn y beic, a daeth rhai o bobl yr ardal i'r casgliad mai'r heddlu, felly, oedd yn gyfrifol am eu marwolaeth. Cafodd nifer o heddweision eu hanafu a'u cludo i'r ysbyty, ac roedd y cyfan yn ddirgwyddiad trist a thrasig.

Tân Jerwsalem

Digwyddodd y terfysg yn Jerwsalem dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, yn y dyddiau yn dilyn y Pentecost. Roedd hwn yn gyfnod a welodd eglwys Iesu Grist yn dod i fodolaeth ac yn cynyddu i bum mil o bobl mewn amser byr iawn.

Roedd yn amser o bregethu grymus, cyhoeddus ac arwyddion nerthol o iachâd. Roedd hefyd yn gyfnod o erlid llym o gyfeiriad yr awdurdodau Iddewig. Rhoddwyd apostolion mewn dalfa droeon, a'u rhybuddio i beidio â phregethu'n gyhoeddus a gweinidogaethu yn enw Iesu o Nasareth, y Meseia.

Yna daw hanes Steffan, diacon yn yr eglwys a'r merthyr cyntaf, yn Actau 6 a 7. Roedd Steffan, fel yr apostolion, yn cyhoeddi taw Iesu oedd y Meseia – oedd wedi ei addo drwy'r Hen Destament – a chyflawniad y proffwydoliaethau. Yn ei anerchiad gerbron yr archoffeiriad, mae'n olrhain daioni Duw i Israel a gwrthwynebiad trist pobl Israel i Dduw a'i weision.

Daioni Duw

Galwyd Abraham pan oedd yn byw ym Mesopotamia (Irac heddiw), a chafodd ei arwain i wlad yr addawodd yr Arglwydd ei

rhoi i'w ddisgynyddion niferus ymhen cannoedd o flynyddoedd. Digwyddodd hyn drwy i'r Arglwydd ddiogelu'r genedl drwy Joseff, a'u harwain o'r Aifft i Ganaan drwy Moses, un arall a alwyd gan yr Arglwydd. Cafodd Moses 'oraclau byw' gan Dduw – sef holl gynnwys y Gyfraith ar Sinai. Dywedodd Moses hefyd y byddai Duw yn codi proffwyd arall, sef y Meseia (i'w harwain i wlad dragwyddol y nef a'r ddaear newydd).

Gwrthryfel y bobl

Yna mae Steffan yn olrhain hanes trist gwrthryfel mwyafrif plant Israel yn yr Hen Destament. Roeddent yn gwrthod Moses a Duw yn gyson, yn gwrthod ei Air, yn troi at dduwiau ffals ac at bechodau gwarthus, anfoesol. Roeddent hefyd yn lladd y proffwyd oedd yn eu galw 'nôl at Dduw ac at ei Air.

Aiff Steffan ymlaen i gyhuddo arweinwyr Iddewig ei ddydd o wrthwynebu Duw drwy wrthod yr Un cyfiawn, sef yr Arglwydd Iesu Grist, a'r Ysbryd Glân – y Person Dwyfol oedd wedi dod i lawr ar y Pentecost, yn brawf o ddirchafiad Iesu i'r gogoniant fel Arglwydd arglwyddi a Brenin brenhinoedd. Roedd y Crist yn parhau gwaith ei deyrnas drwy ei weision cyffredin gyda grym anghyffredin yr Ysbryd.

O ganlyniad, cafodd Steffan ei labyddio i farwolaeth, gyda'r mob yn taflu cerrig ato'n ddirugaredd.

Casgliad

Mae tebygrwydd a gwahaniaeth sylfaenol rhwng y ddau derfysg. Nid yr Efengyl a grym yr Ysbryd Glân oedd sbardun reiat Trelái. I raddau, mae hynny'n ein hatgoffa mai ein dilema ni fel Cristnogion heddiw yw diffyg ac absenoldeb grym yr Ysbryd yn ein plith fel yn y cyfnod cynnar. Er nad yn ni'n dymuno terfysg, wrth gwrs, mae'n codi hiraeth am ymweliad o'r Ysbryd fydd yn dod â phrofiadau tanllyd iawn – tân sancteiddrwydd Duw yn lledu drwy ein heglwysi; tân gallu Duw yn achub pechaduriaid ar raddfa eang; ac yna tân y frwydr ysbrydol a gelyniaeth ffyrnig Satan.

John Treharne

Cydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Phil Wyman, un o bartneriaid gweinidogaethol Caersalem, Caernarfon. Treuliodd Phil, oedd yn hanu o Galifornia yn wreiddiol, gyfnodau'n gweinidogaethu yn America, ond ers tua 20 mlynedd mae wedi bod yn dod i Gymru yn rheolaidd i gynorthwyo gyda gwaith cenhadol. Yn ddiweddar, roedd wedi symud yn gyfan gwbl i Gymru, gan gydweithio ag eglwys Caersalem ar gynllun VISA Undeb Bedyddwyr Cymru / Baptist Union of Wales. Roedd wedi dysgu Cymraeg ac yn angerddol am bopeth Cymreig.

Meddai Rhys Llwyd, gweinidog Caersalem:

Roedd ei alwad a'i weinidogaeth yn unigryw ac yn mynd â'r sgwrs am fywyd, fydd a phwrpas yn bell tu hwnt

i furiau'r capel mewn ffordd nad oes llawer yn medru ei gwneud. Byddwn hefyd yn cofio'n arbennig am ei ddoniau a'i gyfraniad i fywyd mawl a cherddorol yr eglwys (roedd newydd orffen recordio *concept album* yn mynd drwy'r Gwynfydau!), yn ogystal â'i chwerthiniad iach! Roedd yn bererin, a bu'n grwydryn (yn ystyr lythrennol y gair!) ond fe ddyfnhaodd hyn ei ffydd ac yng nghanol y profiadau hynny daeth yr alwad i Gymru yn rhan o'i stori. Roedd rhywbeth o alwad Ruth o'r Hen Destament yng ngalwad Phil i Gymru: 'ble bynnag yr ei di, fe af finnau; ac ym mhle bynnag y byddi di'n aros, fe arhosaf finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a'th Dduw di fy Nuw innau'. (Ruth 1:16)

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i deulu yn America, yn ogystal â theulu Caersalem, yn weinidog ac yn braidd.



ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

26 Ymson Duw

Darllen: Genesis 18:16–21

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 13)

Yn dilyn galw Sarah i gyfrif am iddi amau addewid Duw, rydym yn awr yn dod ar draws ychydig adnodau diddorol iawn. Rhwng ailgadarnhau'r addewid ac ymbil Abraham dros Sodom a Gomorra, mae'r ychydig adnodau hyn yn hynod ddadlennol wrth inni ystyried yr hyn fydd yn digwydd ym mhennod 19, a dinistr y ddwy ddinas. I mi, mae'r adnodau'n rhoi cyd-destun inni ddeall yn well pwy sydd am weithredu yn achos y ddwy ddinas, sut un yw Duw, a pham mae'r dinasoedd yn cael eu dinistrio.

Yn fynych iawn yn hanes yr Eglwys mae yna bobl – unigolion ac ambell gwilt cyfan – sy'n credu eu bod yn medru rhagdybio pam mae hyn a'r llall wedi digwydd, neu beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Mae'n anodd ambell waith inni ddadlau â phobl o'r fath ar gyfrif eu bod yn gwisgo'u dehongliad mewn iaith sy'n swnio'n ddigon Beiblaidd, a braidd y byddwch yn teimlo'n anysbyrdol iawn yn eu hamau. Rwy'n cofio, wrth gychwyn paratoi ar gyfer y weinidogaeth, synnu o ddeall bod rhai o arweinwyr y Methodistiaid cynnar yn cael eu hadnabod fel proffwydi, rhywbeth oedd yn gyffredin i sawl cangen o'r Eglwys synt ac wedyn. Ond proffwydi yn yr ystyr eu bod yn gyfrifol am gyhoeddi a rhannu Gair Duw oedd y rhain, nid proffwydi yn yr ystyr a geir yn yr Ysgrhythur, lle y maent yn dod â gair o'r newydd – 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd...'

Yn Job 11, mae Zophar, un o 'gyngorwyr Job', yn dweud wrtho: 'A elli di ddarganfod dirgelwch Duw, neu gyrraedd at gyflawnder yr Hollalluog? Y mae'n uwch na'r nefoedd. Beth a wnei di? Y mae'n is na Sheol. Beth a wyddost ti? Y mae ei fesur yn hwy na'r ddaear, ac yn ehangach na'r môr' (11:7–9). Yn yr un modd mae Paul yn cydnabod: 'Ganddo ef yn unig y mae anfarwoldeb, ac

mewngoleunianhygyrchymae'n preswyllo. Nid oes neb wedi ei weld, ac ni ddichon neb ei weld' (1 Timotheus 6:16). Mae'n dyfynnu Eiseia yn 1 Corinthiaid 2:16: 'Pwy a adnabu feddwl yr Arglwydd, i'w gyfarwyddo?' Os oedd Paul felly'n cydnabod bod yna elfen o dywyllwch, yn yr ystyr fod yna bethau am Dduw nad ydym am gael eu gwybod yn awr gan mai 'anghyflawn yw ein gwybod ni, ac anghyflawn ein proffwydo ni' (1 Corinthiaid 13:9), rhaid inni ymarfer gofal anghyffredin cyn hawlio medru deall holl droeon rhagluniaeth. Pam mae'r peth a'r peth wedi digwydd? Beth sy'n mynd i ddigwydd? I'r cwestiynau yma, ateb y Cristion yw na wŷr mwy na neb arall, ond ei fod yn gwybod yn llaw pwy yr oedd ddoe, y mae heddiw, ac y bydd yfory.

Wedi dweud hyn i gyd, mae Duw yn Dduw sy'n ei ddatguddio'i hun, ac mae'r datguddiad hwnnw yn driphlyg, gyda'r tri yn cytuno o ran yr hyn y maent yn ei ddweud. Mae Duw yn ei ddatguddio'i hun yn y greadigaeth, yn yr Ysgrhythur ac yn Iesu. Ystyriwch yr adnod hon: 'Yn wir, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig ef, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd. Am hynny, y maent yn ddiesgus' (Rhufeiniaid 1:20). Ac yna eto, adnod agoriadol y llythyr at yr Hebraeid: 'Mewn llawer dull a llawer modd y llefarodd Duw gynt wrth yr hynafiaid trwy'r proffwydi, ond yn y dyddiau olaf hyn llefarodd wrthym ni mewn Mab.' Mae'r greadigaeth yn tystio i fodolaeth a phriodoleddau Duw, yr Ysgrhythur yn datguddio bwriadau achubol Duw, ac Iesu yn datguddio Duw ei hun yn Dduw sydd wedi dod i'n hachub. Dyma holl fwriad Duw o'r cychwyn, yn ei haelioni, yn ei gariad mae am inni ei adnabod, dod i berthynas ag Ef, a byw yn awr ac byth yn ei gwmi. O dro i dro yn y Beibl cawn y nefoedd yn agor y llenni ychydig yn lletach er mwyn inni gael gweld hyn.

Dyma a geir yn yr adnodau hyn. Mae Duw am ddweud wrth Abraham beth mae am

ei wneud, sut y mae i ddeall tynged y ddwy ddinas yma, ac mae'n gwneud hynny o fewn y berthynas arbennig oedd rhyngddo ac un o'i blant, perthynas sy'n realiti i bawb yng Nghrist. Yn Eiseia 41:8 cyfeirir at Abraham fel 'f'anywlyd' neu'n llythrennol, fy ffrind. Mae'n siŵr eich bod yn cofio geiriau Iesu i'w ddisgyblion yn Ioan 15:14–15: 'Yr ydych chi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn ichwi. Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chi bob peth a glywais gan fy Nhaf'. Mewn ffordd, mae Genesis 18:17 yn cyfeirio at yr un peth, yr un Duw sy'n awyddus i beidio â chelu 'rhag Abraham yr hyn yr wyf am ei wneud'.

Meddyliwch am y fath drugaredd ymostyngol o du'r nefoedd! Yn wir, mae adnod 21 yn mynd ymhellach gan ddweud y bydd yn dod i weld, nid yn gymaint gan nad yw'n gweld, ond er mwyn dangos i'w gyfaill ei fod yn drylwyr ac uniawn yn ei farn: 'disgynnaf i weld a wnaethant yn hollol yn ôl y gŵyn a ddaeth ataf; os na wnaethant, caf wybod'. Ond, yn fwy na hynny: 'fe'i hysbysaf, er mwyn iddo orchymyn i'w blant a'i dylwyth ar ei ôl gadw ffordd yr ARGLWYDD a gwneud cyfiawnder a barn, fel y bydd i'r ARGLWYDD gyflawni ei air i Abraham' (adn. 19).

1. Pa mor barod fyddwch chi i ymddiried ym mhwy yw Duw a phwy yw Iesu pan fyddwch yn ei chael hi'n anodd deall troeon rhagluniaeth?
2. Pa brofiadau sydd gennych o Dduw yn 'agor y llenni yn lletach' o bryd i'w gilydd? Oes adnodau, emyn, pregeth sydd wedi bod yn allweddol ichwi weld yn gliriach fwriadau Duw?
3. Mae Duw yn dweud wrthym pam ei fod am ddatguddio'i fwriadau i Abraham. Pa mor bwysig yw rhannu â phlant a phobl eraill o'n cwmpas beth mae Duw wedi ei wneud, a beth mae Duw am ei wneud?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 4 Mehefin, am 7.30yh

Yn ystod Wythnos y Gwirfoddolwyr bydd Ryland yn dathlu cyfraniad y bobl arbennig sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni i gefnogi'r Gwasanaeth Gwaed. Daw'r canu mawl o oedfa awyr agored yn sir Benfro.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 4 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Blaen-ffos

Sul, 4 Mehefin, am 12yp

Oedfa dan ofal Gwyn Elfyn Jones, Pontyberem

Ffydd a Diwylliant

Y Gadair Ddu

Beth amser yn ôl fe wnaethon ni fel teulu ymweld â'r Ysgwrn. Mae'n rhaid fy mod wedi mynd heibio pen y lôn filoedd o weithiau yn ystod y cwta ddeugain mlynedd rydw i wedi teithio'r ffordd honno. Gwybod yr hanes. Meddwl fy mod yn gwybod be oedd yno, ond erioed wedi mentro ar hyd y lôn ac at y tŷ.

Ond yn ddiweddar dyma fynd.

Cawsom brofi'r croeso chwedlonol a chael cyflwyniad penigamp i'r tŷ a'i ryfeddodau.

Allai rhywun ond rhyfeddu at droeon yr yrfa, y gyfres o gyd-ddigwyddiadau, ffawd, rhagluniaeth, beth bynnag galwch chi o, arweiniodd at yr hyn sydd yno heddiw. Drama drasig y gadair, wrth gwrs, ond hefyd penderfyniad sawl cenhedlaeth o'r teulu i gadw'r drws ar agor a'r cof am Hedd Wyn yn fyw, a'r amgylchiadau personol a ganiataodd iddyn nhw wneud hynny. Hawdd y gallai priodas, profedigaeth, dirwasgiad, salwch neu chwiw am newid fod wedi taflu'r cyfan oddi ar ei echel a gadael yr Ysgwrn yn dŷ fferm arall digon cyffredin ym Meirionnydd. Ond nid felly digwyddodd hi.

Wrth gwrs, yr uchafbwynt oedd gweld y Gadair Ddu ei hun. Eto, edrych arni a meddwl bod rhywun yn deall yr hyn

roedd o'n ei weld: cadair eisteddfodol hardd, cadair yr oedd cryn hanes yn perthyn iddi, ond cadair ddigon tebyg i rai eraill yr oedd rhywun wedi eu gweld.

Ond, diolch byth, roedd yno rywun i'n goleuo ni. Cawsom daith benigamp gan Alwen. Ac fe wnaeth fwy na dangos y gadair. Fe ddarllenodd hi'r gadair i ni.

Roedd y rhagymadrodd yn arwyddocaol, wrth gwrs: Eugene Van Fleteren, ffoadur o Wlad Belg, yn creu'r gadair, i brifardd o Gymro a laddwyd yn ôl yng Ngwlad Belg ar ddiwrnod cyntaf brwydr Passchendaele.

Ond fe oleuodd Alwen ni ynglŷn ag arwyddocâd y symbolau oedd wedi eu



cerfio mor gain i bren y gadair. Y Fam Ddaear a'r clymau Celtaidd tragwyddol, croesau Celtaidd yn cynnal yr elfennau – dŵr, tân, daear ac awyr. Hunan-ddinistr y sarff ddeuben, symbol arwyddocaol yng nghanol cyfnod o ryfel, ac anifeiliaid y tywyllwch yn methu wynebu pelydrau'r haul ac arwyddair yr Orsedd.

Dysgais gymaint o aros a chymryd fy arwain.

Mae yna lawer o gyd-ddigwyddiadau wedi'n harwain ni i lle bynnag ydyn ni ar hyn o bryd. Gallai un briodas, profedigaeth neu chwiw am newid fod wedi gyrru pob un ohonon ni ar drywydd gwahanol. Beth fyddai'r rheiny yn eich achos chi, tybed?

Ond rydyn ni hefyd yn gyrru heibio i bethau cyfarwydd dro ar ôl tro, cymryd ein bod ni'n gwybod be sydd i'w wybod a pheidio â throi i lawr y lôn i weld ac i ddysgu, ac i gael ein dysgu.

Mae rhywun yn gwibio heibio i adnodau, penodau ac emynau mor aml, heb feddwl aros i ystyried. Meddwl bod rhywun yn gwybod yn iawn beth sydd yno. Gwrando ar eu sŵn heb ystyried eu synnwyr. Heb werthfawrogi arwyddocâd union amgylchiadau eu creu, eu cyddestun hanesyddol, yr ystyr sydd dan yr wyneb. Ac weithiau, mae'n well gan rai fod pethau'n aros felly.

Arwel Rocet Jones

(Am ragor o wybodaeth am yr Ysgwrn, ewch i'r wefan: <https://yrsgwrn.com/>)

Sefydlu Rhwydwaith Daniel Rowland ar y cyd ag Union

Partneriaeth newydd yw Rhwydwaith Daniel Rowland rhwng Ysgol Ddiwinyddiaeth Union a rhai sy'n rhannu'r Efengyl yn y Gymraeg, neu mewn cyd-destunau dwyieithog yng Nghymru.

Rydym wrth ein bodd fod Dr Rhodri Glyn, gweinidog Capel y Ffynnon, Bangor, wedi ymuno â ni fel Cydlynnydd y rhwydwaith yma o weinidogion ac eglwysi. Amcan y rhwydwaith yw darparu hyfforddiant diwinyddol cyfrwng Cymraeg gan feithrin mwy o gydweithio cenhadol a phlannu eglwysi yng Nghymru.

Yn ychwanegol, caiff Canolfan Daniel Rowland ei sefydlu yn Llyfrgell yr Union School of Theology ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fydd yn cynnwys casgliad helaeth o weithiau diwinyddol Cymraeg. Meddai Rhodri, "Rydym yn gweddio y bydd Rhwydwaith Daniel Rowland a'r

bartneriaeth gydag Union yn sbarduno ymdrechion i rannu'r Efengyl yn y Gymru gyfoes, gyda'r gobaith y cawn ein hysbrydoli wrth ryfeddu o'r newydd at waith Duw yma yn y gorffennol."

Dywed Dr D. Eryl Davies, Arolygydd Ymchwil Union:

Dyma gynllun pwysig i gefnogi ac annog gweinidogion Cymraeg a'r rhai sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd dwyieithog yng Nghymru. Rwy'n llawenhau wrth gymeradwyo'r fenter, yn enwedig o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn, Bangor. Gweddïaf y bydd y Rhwydwaith o dan fendith Duw yn hybu lledaeniad yr Efengyl ymhlith Cymry Cymraeg a dysgwyr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cydweithio â'r Rhwydwaith, neu os hoffech gael gwibodaeth bellach, croeso i chi anfon e-bost at: rglyn@union.ac.uk



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Sul y Drindod – Mawl drwy'r hollfyd

Emyn Salm 8 o'r *Salmau Cân Newydd*
<https://www.bible.com/cy/bible/1364/PSA.8.SCN>

Gwedd

Arglwydd ein lôr, mor ogoneddus wyt drwy'r holl fyd. Yn dy allu i greu, drwy dy ofal am dy greadigaeth, drwy dy fwriad gwaredigol yng Nghrist, a hyd nes y bydd y gwaith gogoneddus yn dwyn y greadigaeth gyfan i undod ynddo ef, yr wyt yn ysbennydd wych. Arglwydd, gogonedda dy hun heddiw yn ein plith. Amen.

Emyn 30 'Glân geriwbiaid a seraffiaid'

Darlflen Genesis 1-2:4

Ffanffer

Drwy'r Beibl i gyd, o'r 'yn y dechreuad' cychwynnol (Genesis 1:1) hyd at 'Tyrd, Arglwydd Iesu' ei adnod olaf (Datguddiad 22:21), canfyddwn mai'r Duw dirgel, cuddiedig i'n meddyliau a'n dealltwriaeth bitw, feidrol ni, yw prif gymeriad y cyfan oll i gyd.

Yn ei addewidion i'r byd, ym mawl a galarganau ei bobl, cyhoeddir mai Crëwr y byd yw ei waredwr hefyd. Daeth y Meseia a addawyd, ym mhen y rhawd, i'w gartref ei hun, at bobl oedd wedi eu paratoi. Datguddiwyd y Gwaredwr hwnnw fel proffwyd brenhinol ac offeiriadol. Mewn dull rhyfeddol, datguddiwyd bod Duw yng Nghrist, drwy ei farw aberthol ar y groes, yn cymodi'r byd ag ef ei hun.

Man cychwyn hyn oll yw'r argyhoeddiad mai byd Duw yw'r cyfan oll.

Gweledigaeth amgen

Mae gan bob diwylliant, neu bobl, neu hil eu dealltwriaeth eu hunain am natur y byd y daethant i fyw ynddo, eu lle o fewn y greadigaeth honno, a'u perthynas â'r duw, y duwiau, neu'r grymoedd ysbrydol anhysbys, a roddodd fod iddynt.

Mae Genesis yn ei hanfod yn cynnig gweledigaeth benodol iawn am y creu ac am berthynas y ddynolryw yn ei chyfanrwydd â'r Duw a roddodd fod iddi.

Gadewch i ni ystyried am foment ymhellach sut y mae Genesis yn cynnig gweledigaeth amgen i ragdybiaethau poblogaidd pob oes.

Cred am y duwiau

Mewn byd lle roedd 'dinasoedd' yn cael eu rheoli gan 'frenhinoedd', ac mewn diwylliant oedd yn credu bod gan bob dinas ei 'duw' ei hun, roedd yn amlwg i

bobl fod y 'duw' mwyaf pwerus yn perthyn i'r wladwriaeth fwyaf llwyddiannus. Yn niwylliant pwerus Mesopotamia a Babilon adroddid bod y byd o dan reolaeth Marduk, a'i fod ef wedi sefydlu ei frenhiniaeth dros rymoedd direolaeth y dyfroedd oedd ar wyneb y ddaear ddi-ffurf.

Mae'n wir fod Genesis yn benthgwyth i'w dealltwriaeth neu ddelweddau oedd yn gyffredin ar draws yr Hen Fyd. Yn yr un modd ag y byddem ninnau heddiw, o bosib, yn defnyddio ieithwedd wyddonol i ddisgrifio prosesau materol. Ond roedd cynnwys diwinyddol yr argyhoeddiad a fynegir yn Genesis yn gwbl anghyffredin.

Sylwn, er enghraifft, nad yw Genesis yn enwi na'r haul na'r lloera na'r sêr yn benodol. I fydd lle roedd y sêr, yr haul a'r lleuad yn wrthrychau addoliad, cynigiodd Genesis eglurhad amgen. Mynna mai bodau creedig oeddynt, ac nid gwrthrychau addoliad!

Mynna Genesis hefyd nad gan fwystfilod, neu rymoedd dilyffethair, neu dduwiau mympwyol, na chan ysbrydion aflan, creulon, y daeth y grym creadigol. Nid drwy ddamwain chwaith y daeth y cyfan i fod. Daeth y *bārā* creadigol, bywiol a chynhaliol drwy weithgarwch rhydd a bwriadol y Duw hwnnw a'i datguddiodd ei hun yn ddiweddarach yn Genesis fel crëwr a gwaredwr Israel. Gan y grym creadigol personol hwnnw a ddywedodd 'gwnawn' y mynegwyd y geiriau, 'bydded ...' Mor rymus ei air fel bod ei ynganiad o ddymuniad ynddo'i hun yn rhoddi bod.

Nid yw Genesis yn caniatáu i bantheistiaeth fod yn opsiwn cred. Er bod yr Arglwydd wedi rhoi bod i'r greadigaeth, nid yw i'w uniaethu ag unrhyw elfen weledig, neu anweledig, o'i greadigaeth. Nid Gaia'r 'fam ddaear' mohono chwaith, fel pe bai'r bywyd yn dragwyddol, yn bodoli yn y ddaear faterol ei hun, ar wahân i gynhaliath Ysbryd Duw.

Emyn 116 'Nef a daear, tir a môr'

Afluniaidd a gwag ... ddim mwych

Duw ei hun, drwy fwriad a dewis rhydd, a alwodd y greadigaeth i fodolaeth (Hebreaidd 11:3). Ef hefyd wedi'r symudiad cychwynnol hwn a gymerodd yr hyn oedd yn 'afluniaidd a gwag' gan roi arno urddas, ffurf a harddwch. Yn wir, roedd y cread yn gampwaith, ac asesiad Duw ei hun oedd ei fod yn 'dda', neu hyd yn oed yn 'dda iawn' (1:31).

Gwnaeth yr Arglwydd fwy na rhoi trefn ar yr hyn oedd yn afluniaidd a gwag. Cymerodd elfennau ymddangosiadol gwrthgyferbyniol a gwahanol a'u hasio i greu patrwm lle na allai un fodoli, neu fod ag ystyr, heb y llall.

Beth fyddai 'tywyllwch' heb oleuni i'w wrthgyferbynnu? Rhoddodd yr Arglwydd ar y 'dydd' cyntaf ddisgrifiad hanfodol o'r gwahaniaeth rhyngddynt, gan alw tywyllwch a goleuni i fod. Gwahannodd dir a môr gan roi tir ffrwythlon i blanhigion dyfu lle cynt y bu'n afluniaidd a gwag. Cyhoeddodd ei ogoniant drwy oriau'r dydd a'r nos. Ac i drigo yn ei oriau amrywiol a'i dirweddau amrywiol, rhoddodd anifeiliaid ac adar a phob creadur byw i drigo ynddynt. Ac yn olaf, yn y deml hardd y bu'n ei hadeiladu, gosodwyd delw Duw ei hun. Yn ddynolryw – yn wryw ac yn fenyw – yn fodau deallus, ysbrydol, urddasol a hardd y cawsant eu gosod, er mwyn iddynt fwynhau ac adlewyrchu ei ogoniant yn eu perthynas â Duw, a'u gofal o'i fyd ac o'i gilydd.

Newyddion da y creu, y cadw a'r Pentecost

Mynna'r Testament Newydd fod y Gair creadigol hwnnw oedd gyda Duw yn rhannu hanfod Duw, a'i fod wedi gwisgo natur ddaearol, faterol a dynol. Daeth y gair yn gnawd a chartrefu ym myd ein profiadau ni (Ioan 1:1-14). Daeth Iesu i gyhoeddi Gair y Bywyd, a thrwy ei farwolaeth ar y groes, rhwygwyd y llen oedd yn cadw dynoliaeth euog rhag sefyll yn y cysegr sancteiddiolaf. Ef ei hun, wedi ei atgyfodiad, a wahoddodd ei ddisgyblion i rannu yn y genhadaeth ddwyfol i fynd i'r holl fyd (Mathew 28:18-20). A'r un Ysbryd oedd fel gwynt nerthol yn Genesis a ddaeth fel gwynt nerthol o'r nef ar ei ddisgyblion adeg y Pentecost. Dyma'r gallu sy'n creu cymuned a chymdeithas newydd i adlewyrchu gogoniant Duw yn y byd. Dyma gymdeithas sy'n bodoli drwy ras ein Harglwydd Iesu Grist, cariad Duw a chymdeithas fywiol yr Ysbryd Glân.

Gwedd

Arglwydd, gweddiwn dros dy eglwys yn ein cymuned ... ein gwlad ... ein byd. Caniatâ i ninnau ymgawdoli a phrofi bod gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân yn realiti bywiol a thrawsffurfiol. Amen.

Emyn 42 'Sanctaid, sanctaid, sanctaid'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)